

Gwybodaeth am ansawdd data am y Gymraeg o Gyfrifiad 2021

Gwybodaeth am ansawdd sy'n effeithio ar ddata am y Gymraeg o Gyfrifiad 2021 er mwyn helpu i'w dehongli'n gywir.

Cyswllt:
Gwasanaethau cwsmeriaid y
cyfrifiad
Census.customerservices@ons.
gov.uk
+44 1392 444972

Dyddiad y datganiad:
26 October 2023

Cyhoeddiad nesaf:
To be announced

Table of contents

1. [Gwybodaeth am ansawdd](#)
2. [Ymchwil pellach](#)
3. [Dolenni cysylltiedig](#)

1 . Gwybodaeth am ansawdd

Asesiad hunangofnodedig

Mae data am y Gymraeg o Gyfrifiad 2021 yn dod o hunanasesiad o allu. Gofynnodd y cwestiwn yng Nghyfrifiad 2021 am i bobl asesu eu gallu i wneud y canlynol:

- deall Cymraeg llafar
- siarad Cymraeg
- darllen Cymraeg
- ysgrifennu Cymraeg

Bydd pawb yn asesu eu sgiliau iaith eu hunain yn wahanol. Mae hyn yn golygu y bydd dau berson sydd â'r un sgiliau Cymraeg o bosibl yn rhoi atebion gwahanol am eu gallu.

Gallai hefyd fod yn asesiad o allu person arall os bydd rhywun yn ateb ar ran rhywun arall. Er enghraifft, gallai rhiant fod yn ateb ar ran plentyn. Mae'n bosibl na fydd y rhiant yn gwybod i ba raddau y gall y plentyn ddeall, siarad, darllen, neu ysgrifennu Cymraeg.

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Ar gyfer y cwestiwn "Ydych chi'n gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?", gwnaethom ofyn i bobl ddewis pob opsiwn a oedd yn berthnasol o'r rhestr o sgiliau. Ni fydd pawb wedi darllen y cyfarwyddyd hwn ac mae'n bosibl mai dim ond un opsiwn y byddant wedi'i ddewis.

2 . Ymchwil pellach

Mae [Llywodraeth Cymru](#) a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn gweithio ar y cyd ar gynllun ymchwil i wella dealltwriaeth o'r prif ffynonellau a ffynonellau data gweinyddol a ddefnyddir i gynhyrchu ystadegau ar y Gymraeg. Bydd yr ymchwil hwn yn cynnwys amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 ar sgiliau Cymraeg.

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr [adroddiad cyntaf](#) yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata gan unigolion yng Nghymru a oedd wedi ymateb i Gyfrifiad 2021 ac un o'n harolygon aelwydydd, yr [Arolwg o'r Llafurlu](#). Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar y gwahaniaethau rhwng y ffordd yr adroddir am sgiliau Cymraeg ar draws y ddwy ffynhonnell ddata. Fe'i cynhyrchwyd mewn partneriaeth rhwng dadansoddwyr o Lywodraeth Cymru, [Ymchwil Data Gweinyddol Cymru \(ADR Cymru\)](#) a'r SYG. Cafodd y dadansoddiad ei wneud yn y [Gwasanaeth Data Integredig \(IDS\)](#) a dyma'r allbwn cyhoeddedig cyntaf i ddefnyddio'r IDS.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwil hwn, gweler y [cynllun gwaith ar gydlyniant sgiliau'r Gymraeg](#) sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

3 . Dolenni cysylltiedig

[Gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 ac arolygon aelwydydd](#)

Allanol | Cyhoeddwyd 26 Hydref 2023

Canfyddiadau cychwynnol ymchwil sy'n adolygu'r gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 a'r Arolwg o'r Llafurlu. Ffrwyth gwaith cynllun gwaith ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r cyhoeddiad hwn i wella ein dealltwriaeth o ystadegau am y Gymraeg.

[Gwybodaeth am Ansawdd a Methodoleg ar gyfer Cyfrifiad 2021](#)

Diweddarwyd ar 28 Tachwedd 2022

Yn rhoi manylion am gryfderau data, cyfyngiadau, defnyddiau, defnyddwyr a'r dulliau a ddefnyddiwyd ar gyfer Cyfrifiad 2021, Cymru a Lloegr.

[Sut y gwnaethom sicrhau ansawdd amcangyfrifon Cyfrifiad 2021](#)

Methodoleg | Rhyddhawyd ar 7 Tachwedd 2022

Methodoleg ar gyfer dilysu amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys sicrwydd prosesau, asesu amcangyfrifon, a chyfranogiad awdurdodau lleol.

[Newidynnau grp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd Cyfrifiad 2021](#)

Gwybodaeth ategol | Rhyddhawyd ar 28 Tachwedd 2022

Newidynnau a dosbarthiadau a ddefnyddir yn nata Cyfrifiad 2021 am grp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith, gan gynnwys y Gymraeg, a chrefydd.

[Cynllun gwaith ar y cyd y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru ar gydlynid Ystadegau ar y Gymraeg](#)

Allanol | 25 Ebrill 2023

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gwaith y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud yn ystod 2023 i 2024 a thu hwnt i wella ein dealltwriaeth o'r prif ffynonellau data gweinyddol ac arolygon a ddefnyddir i lunio ystadegau ar y Gymraeg.